

**PARRY DAVIES CLWYD-JONES a LLOYD**  
**LLP / ELWYN JONES a'r CWMNI**

**TELERAU BUSNES CYFFREDINOL**

**Cyflwyniad**

Mae'r telerau hyn yn amlinellu'r modd y byddwn ni, Parry Davies Clwyd Jones a Lloyd LLP/Elwyn Jones a'r Cwmni, yn gweithredu ar ran cleientiaid a byddant yn berthnasol i bob mater y rhoddir cyfarwyddiadau i ni yn ei gylch. Hysbysir cleientiaid am unrhyw ddiweddariadau i'r telerau hyn cyn iddynt ein cyfarwyddo ar unrhyw faterion newydd. Gall cleientiaid dderbyn llythyr ymrwymo ar wahân hefyd yn delio ag amgylchiadau penodol y mater neu faterion y cyfarwyddir ni yn eu cylch.

**Cyswllt â'r Cleient**

Hysbysir cleientiaid beth yw enw'r sawl sydd yn gyffredinol gyfrifol am bob mater y cawn gyfarwyddiadau yn ei gylch ac unrhyw newidiadau i hyn. Gellir cynnwys cyfreithwyr eraill, hyfforddeion neu weithwyr paragyfreithiol lle bo hynny'n briodol ac yn effeithlon. Gall hyn fod oherwydd y gellir cyflawni'r gwaith yn fwy cost-effeithiol, bod angen mewnbwn gan gyfreithwyr arbenigol mewn adrannau eraill a/neu fod y sawl sydd yn gyffredinol gyfrifol yn absennol o'r swyddfa neu i ffwrdd ar wyliau.

**Cyfarwyddiadau**

Darperir cyngor ar sail y wybodaeth a'r dogfennau a roir i ni yn unig. Mae'n bwysig felly fod cleientiaid yn darparu pob gwybodaeth neu ddogfennau perthnasol sydd ganddynt yn eu meddiant yn ddiymdroi er mwyn inni allu eu cynghori'n iawn. Rhaid i gleientiaid roi gwybod inni'n syth os dont i wybod am unrhyw wybodaeth neu ddogfennau eraill a allai gael unrhyw effaith ar y cyngor a roddir gennym.

Byddwn yn derbyn cyfarwyddiadau ar y sail bendant fod cleientiaid bob amser yn gweithredu'n hollol ddidwyl yn eu hymwneud â ni ac y datgelant yn llawn bob gwybodaeth yn eu meddiant sydd (neu a all fod) yn berthnasol i bryniant neu werthiant neu fater yr ydym yn derbyn cyfarwyddiadau yn ei gylch. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw ddifrod a/neu golled a ddiroddir o ganlyniad i fethiant cleient i weithredu felly, unrhyw oedi cyn cyflwyno neu fethiant i gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennaeth neu achos arall o dorri'r telerau hyn, a chaiff yr hawl i hawlio am y cyfryw ddifrod a/neu golled ei hepgor a'i gau allan yn ddigamsyniol gan gleientiaid.

Os bydd cleient yn torri'r ddyletswydd ddidwylledd hon, cawn yr hawl i roi'r gorau'n syth i weithio ar unrhyw faterion sy'n weithredol ar y pryd ni waeth pa effaith a gaiff hyn ar unrhyw bryniant neu werthiant sydd ar droed, a/neu wrthod parhau i weithredu ar ran y cleient hwnnw ar y mater penodol dan sylw ac yn gyffredinol, a byddwn hefyd wedyn yn codi bil terfynol am unrhyw waith sy'n ddyledus. Os parhawn i weithredu, gall methiant i gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennaeth neu unrhyw annidwylledd arall amharu ar ein gallu i roi cyngor priodol, achosi oedi a chynyddu costau.

**Rheoliadau Cytundebau Defnyddiwr 2013 (perthnasol i gleientiaid anfasnachol yn unig)**

Os cyfyd ein cyfarwyddiadau i weithredu drwy gyfarfod (neu gyfathrebiad arall) gyda chynrychiolydd o'n ffyrn y tu allan i'r swyddfa, yna bydd y cytundeb yn un "tu allan i'r swyddfa" ac o'r herwydd (oni bai fod y taliad am y gwasanaeth yn fwy na £42 - e.e. mater cymorth cyfreithiol digyfraniad), yna bydd gennych hawl i ddiddymu eich cyfarwyddiadau i'r ffyrn (drwy lythyr, ffacs neu e-bost) o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad ar ôl i chi gysylltu/gyfarwyddo'r ffyrn. Os diddymwch y cytundeb o fewn y cyfnod o 14 diwrnod, ond eich bod yn cyfarwyddo'r ffyrn i gyflawni darn o waith, a'n bod yn ei gyflawni, yna byddwch yn gyfrifol am dalu ein costau rhesymol am

wneud hynny. Yn ogystal, os awdurdodwch ni i ddechrau gwaith a'ch bod yna'n rhoi rhybudd o ddiddymu a ninnau wedi cwblhau'r gwaith, byddwch eto'n gyfrifol am dalu ein costau rhesymol am gwblhau'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, yn amodol ar hyn, ni fydd rhaid i chi dalu am ein gwasanaeth os defnyddiwch eich hawl i ddiddymu.

Os ydym wedi'n cyfarwyddo gennych i weithredu ar eich rhan ac eithrio fel y disgrifir uchod, bydd hyn yn gytundeb "yn y swyddfa" heb hawl i ddiddymu. Serch hynny, byddai gennych hawl i ddiddymu eich cyfarwyddiadau fel y nodir fel arall yn y ddogfen hon.

Os dychwelwch y Termau a Thelerau Busnes hyn inni, wedi'u harwyddo, yna bydd hyn yn gyfystyr â'ch awdurdod i'r mater fynd rhagddo gydag unrhyw hawliau diddymu yn cael eu hildio; ac unwaith y byddwn wedi dechrau ar y gwaith gallwch fod yn gyfrifol am unrhyw gostau os diddymwch eich cyfarwyddiadau wedyn. Fel y nodir uchod, mae gennych hawl i ddiddymu'ch cyfarwyddiadau yn ystod y mater.

**Gwariadau (Cleientiaid sy'n Talu'n Breifat yn Unig)**

Efallai y bydd rhaid inni achosi treuliau a gwneud taliadau i drydydd partion ar ran cleient ("gwariadau") yn ystod y mater. Gall y cyfryw eitemau gynnwys taliadau chwilio, toll stamp, treth stamp ar dir, ffioedd y Gofrestrfa Tir, ffioedd llys, taliadau asiantau ymchwiliad/cyflwynwyr gwysion, ffioedd asiantau, ffioedd cwnsleriaid ac arbenigwyr a threuliau teithio. Os ceir gorbenion eithriadol, e.e. llungopio ar raddfa fawr, codir y costau hyn ar gleientiaid fel cost ychwanegol.

Gallwn ofyn i gleientiaid wneud taliad ar gyfrif am wariadau ac, yn enwedig, byddwn yn gofyn yn gyffredinol am arian wedi'i glirio cyn gwneud gwariadau.

**Costau mewn materion cynhennus**

Mae Cleientiaid sy'n Talu'n Breifat yn bersonol gyfrifol am yr holl ffioedd sy'n daladwy wrth ddelio â materion cynhennus er gwaethaf unrhyw orchymyn llys neu ddyfarniad a wneir yn erbyn parti arall. Mae unrhyw orchymynion neu ddyfarniadau o'r fath yn annhebygol o dalu'r costau cyfreithiol llawn a ddaw i'n rhan ar ran cleient. Efallai y bydd y parti arall yn methu talu'r hyn y gorchymynnwyd iddynt ei dalu ac, os ydynt yn derbyn cymorth cyfreithiol, hwyrach na fydd cleientiaid yn adennill eu costau cyfreithiol hyd yn oed os ydynt yn llwyddiannus yn yr achos, a hynny oherwydd rheolau ynghylch pobl sy'n cael cymorth cyfreithiol. Os yw hawliad neu amddiffyniad cleient yn aflwyddiannus mae'n debygol y bydd raid iddynt dalu costau cyfreithiol eu gwrthwynebydd yn ogystal â'u costau eu hunain.

**Yswiriant**

Dylai cleientiaid ystyried hefyd, yn enwedig mewn materion cynhennus, a all fod darpariaeth ar gyfer eu costau cyfreithiol neu atebolrwydd cyfreithiol posibl dan bolisi yswiriant sydd ganddynt eisoes. I gleientiaid preifat efallai y bydd eu hyswiriant tŷ neu eu polisi yswiriant car yn cynnwys yswiriant ffioedd cyfreithiol. Mae rhai yswirwyr yn cynnig yswiriant treuliau cyfreithiol i gleientiaid corfforaethol a gall aelodaeth corff proffesiynol hefyd ddarparu ar gyfer cymorth gyda chyngor cyfreithiol. Ar gyfer materion cynhennus efallai y bydd modd cael yswiriant ar gyfer y risg o orfod talu costau cyfreithiol gwrthwynebydd a chostau cyfreithiol y cleient ei hun.

**Budd a risg costau**

Ceisiwn gyngori cleientiaid pan fydd yr holl wybodaeth/ddogfennaeth berthnasol yn ein meddiant a yw'r canlyniad tebygol mewn mater yn cyfiawnhau'r gost neu'r risg sydd ynghlwm wrtho

gan gynnwys, os yw'n berthnasol, y risg o orfod talu costau gwrthwynebydd mewn materion cynhennus.

### **Bilio Interim (Cleientiaid sy'n Talu'n Breifat yn Unig)**

Ein polisi arferol yw cyflwyno bil bob mis am waith a wnaed yn ystod y mis hwnnw. Ychwanegir TAW ar y gyfradd briodol i'r gwasanaeth a ddarparwyd at ein ffioedd a'n gwariadau. Mae pob bil interim o'r fath yn fil terfynol am ffioedd a gwariadau a achoswyd yn ystod y cyfnod a enwir yn y bil. Os bydd y ffioedd mewn unrhyw fis yn cyrraedd lefel sy'n sylweddol yn ein barn ni, cadwn yr hawl i godi bil interim am y gwaith a wnaed hyd y dyddiad hwnnw'n syth. At hynny, gallwn dynnu ffioedd dyledus allan o unrhyw arian a ddelir neu a dderbyniwyd gennym ni hyd yn oed os ydych wedi clustnodi'r arian hwnnw ar gyfer rhyw bryniant arbennig neu ryw ddiben arbennig.

### **Tâl a hawlrwym (Cleientiaid sy'n Talu'n Breifat yn Unig)**

Ar adeg derbyn cyfarwyddiadau cychwynnol neu yn ystod y gwaith gallwn ofyn i gleient dalu ein ffioedd ar gyfrif.

Yn absenoldeb unrhyw drefniant arall, bydd biliau'n ddyledus i'w talu pan gânt eu cyflwyno. Cadwn yr hawl i godi llog ar filiau nas talwyd ar y gyfradd sy'n daladwy ar y pryd ar ddyledion dyfarniad (sef 8 y cant ar adeg paratoi'r telerau hyn).

Os na thelir ein biliau neu ein ceisiadau am dâl ar gyfrif gwariadau a/neu ein ffioedd, cadwn yr hawl i roi'r gorau i weithio yn syth ar unrhyw faterion sy'n weithredol, ni waeth pa effaith a gaiff hyn ar unrhyw bryniant neu werthiant sydd ar y gweill, a/neu wrthod parhau i weithredu ynghylch y mater sy'n destun y bil neu'r cais am daliad ar gyfrif nas talwyd ac yn gyffredinol, ac wedyn fe godwn fil terfynol hefyd am unrhyw waith sy'n ddyledus. Hyd nes derbyn tâl am bob bil dyledus a phob gwaith heb ei filio sydd ar y gweill, gallwn arfer hawlrwym neu arwystl dros unrhyw eiddo (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffeiliau) sy'n eiddo'r cleient ac sydd wedi dod i'n meddiant ni yn ystod ein contract.

Lle rhoddwn y gorau i weithio neu y gwrthodwn weithredu o ganlyniad i fethiant cleient i wneud taliad, neu am iddo dorri'r telerau hyn neu am reswm rhesymol arall, yna ni fydd gan y cleient hwnnw ddim hawl yn erbyn y cwmni hwn, ei aelodau na'i weithwyr yn sgil unrhyw ddfrod a ddiodefwyd (a hepgorir unrhyw hawliad a fuasai gan y cleient hwnnw fel arall) boed hynny'n ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i'n penderfyniad ni i roi'r gorau i weithio neu wrthod gweithredu.

### **Cyngor ar Fuddsoddi a Chyflafareddu Yswiriant**

Nid yw Parry Davies Clwyd Jones a Lloyd LLP/Elwyn Jones a'r Cwmni wedi'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol i roi cyngor ynghylch buddsoddi. Fodd bynnag, gallwn ddarparu rhai gwasanaethau cyfyngedig penodol yng nghyswllt buddsoddiadau ar yr amod eu bod perthyn yn agos i'r gwasanaethau cyfreithiol yr ydym yn eu darparu i gleientiaid, gan ein bod wedi'n rheoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) ac wedi'n cynnwys yn y gofrestr a gedwir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol fel corff sy'n gwneud gweithgaredd cyflafareddu yswiriant, sef yn fras, cynghori ar, gwerthu a gweinyddu contractau yswiriant. Gellir gweld y gofrestr ar wefan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, [www.fsa.gov.uk/register](http://www.fsa.gov.uk/register).

### **Rheoliadau Atal Gwyngalchu Arian 2017**

Mae'n ofynnol arnom i weithredu arfer a gweithdrefn i atal gwyngalchu arian. Mae ein harfer a'n gweithdrefn yn cydymffurfio â Nodyn Ymarfer Cymdeithas y Gyfraith ar Atal Gwyngalchu Arian, dyddiedig 29 Hydref 2009.

Gallwn hefyd ofyn i gleientiaid ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag ariannu'r mater a/neu'r costau a achosir. Gallwn ofyn am dystiolaeth i brofi pwy sy'n darparu unrhyw gyllid trydydd parti ac ni wnawn dderbyn unrhyw arian cyn cael y cyfryw dystiolaeth. Efallai y

gofynnir am brawf adnabod electronig ar y trydydd parti, am gost ychwanegol o £3 y person. At hynny, ni allwn dderbyn cyfarwyddiadau i dalu arian i drydydd parti ac eithrio yng nghwrs priodol pryniant/gwerthiant. Ni dderbyniwn daliadau arian parod mwy na £500.00. Os telir arian yn uniongyrchol i mewn i'n banc rydym yn cadw'r hawl i wrthod ei dderbyn.

Os, dan ddeddfwriaeth Atal Gwyngalchu Arian, y barnwn fod rhwymedigaeth arnom i wneud adroddiad i awdurdod priodol, ni fyddwn yn atebol am unrhyw golled a gyfyd yn sgil gwneud y cyfryw adroddiad.

### **Llog ar gyfrif cleient**

Ac eithrio lle cytunwyd fel arall gyda chleientiaid, rhoddwn gyfrif i gleientiaid am log ar arian a gaiff ei ddal yng nghyfrif y cleient yn unol â Rheolau Cymdeithas y Gyfraith.

### **Allanoliad:-**

Rydym yn allanoli rhai gweithgareddau ac rydym wedi archwilio a gywirio prosesau cyfrinachedd y ddarparwyr hynny. Mae cofrestr ganolog o Ddarparwyr Allanoliad yn cael ei chadw ac ar gael i'w harchwilio ar ofyn.

### **Comisiwn a dderbynnir**

Oni chytunir fel arall rhoddwn gyfrif i gleientiaid am y cyfan o unrhyw gomisiwn a dderbynnir yng nghyswllt unrhyw fusnes sy'n fusnes i'r cleient.

### **Cyfathrebu**

Fel rheol fe gyfathrebwn â chi mewn ysgrifen oni fernir bod ffurf arall ar gyfathrebu'n fwy priodol. Gall hyn fod drwy lythyr, ffôn, ffacs neu ebost.

Cyfathrebwn â chleientiaid drwy ebost os gwelir mai dyna'r dull cyfathrebu mwyaf priodol. Er ein bod yn cymryd pob cam rhesymol i geisio canfod unrhyw frysau meddalwedd, gall unrhyw ddogfen neu atodiad gynnwys firsus nad yw wedi'i adnabod gan ein meddalwedd gwrth-firsus. Felly dylai cleientiaid wneud eu gwiriadau firsus eu hunain cyn agor unrhyw ddogfennau oddi wrthym. Ar ben hynny, ni ellir gwarantu fod trosglwyddiad gwybodaeth electronig yn ddiogel nac yn rhydd o wallau a gallai gwybodaeth gael ei rhyng-gipio, ei llygru, ei cholli, ei dinistrio, cyrraedd yn hwyr neu'n anghyflawn neu ddiodeff effaith andwyol arall. Rydym ni a'r cleientiaid gyda'n gilydd yn derbyn y risgiau hyn ac yn awdurdodi cyfathrebiadau electronig ac ebost rhyngom a byddwn y naill a'r llall yn gyfrifol am warchod ein systemau a'n buddiannau ein hunain yn y cyswllt hwn.

### **Diogelu Data**

Caiff pob gwybodaeth a ddaliwn ynglŷn â chleient fel unigolyn ei dal a'i phrosesu gan y cwmni hwn yn hollol unol â darpariaethau General Data Protection Regulations (GDPR) 2018. Rydym yn reolwr o dan y rheoliadau ac yn gyfrifol am eich data personol. Byddwn yn defnyddio eich data personol pan y caniateir i ni wneud hynny o dan gyfraith yn unig. Fel arfer defnyddir y data hyn gennym ni i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i gleientiaid, pan fydd yn angenrheidiol er ein budd cyfreithiol, eich budd chi ac i gyflawni oblygiad cyfreithiol neu reoleiddiad. Ni wnawn, heb gysyniad cleient, roi enw a chyfeiriad(au) cleient i unrhyw drydydd parti ac eithrio (1) lle bo'r trosglwyddiad hwnnw'n rhan angenrheidiol o'r gwasanaethau cyfreithiol a roddwn neu (2) lle bo rheidrwydd arnom i wneud hynny dan y gyfraith. Byddwn yn cadw eich data personol cyn hired ac y bydd yn rhesymol angenrheidiol i gyflawni y pwrpas y bu i ni ei dderbyn ac ar gyfer pwrpas bodloni unrhyw ofyniad cyfreithiol, cadw cyfrifon neu gofnodi.

Fel unigolyn mae gan gleient hawl dan y GDPR i ofyn am fynediad i'ch data personol, i ofyn am gywiro'r data personol, i ofyn am ddileu y data personol, i wrthwynebu proseu neu i gyfyngu proseu eich data personol ac i ofyn am drosglwyddo eich data personol. Lle rydym yn dibynnu ar eich caniatad i brosesu eich data personol medrwech dynnu eich caniatad yn ol ar unrhyw adeg.

Mae gennym Rybudd Preifatrwydd wedi ei arddangos ymhob swyddfa ac mae gennym bolisi Gwarchod Data. Medrwech ofyn am gopi papur neu electronic ar unrhyw adeg drwy gysylltu a'r DPO Nia Wyn Lloyd (nialloyd@btconnect.com) Os ydych yn dymuno defnyddio eich hawliau o dan y GDPR cysylltwch a'r DPO

## Storio dogfennau

Fel arfer byddwn yn cadw ffeiliau'n ddi-dâl am gyfnod o chwe blynedd wedi cwblhau'r mater. Rhoddir dyddiad dinistrio i'r ffeil wrth gwblhau'r mater. Ni fyddwn, oherwydd nifer y ffeiliau a storiwn, yn anfon unrhyw nodyn atgoffa pellach. Os yw cleient yn dymuno inni gadw ei ffeil(iau) yn hwy na'r dyddiad dinistrio a roddwyd, cadwn yr hawl i godi tâl rhesymol am wneud hynny. Ni fyddwn yn dinistrio unrhyw ddogfennau fel ewyllysion, gweithredoedd neu warannau eraill y gall cleientiaid ofyn inni eu cadw'n ddiogel. Ni chodir tâl am y storio hwn heb yn gyntaf roi rhybudd ysgrifenedig i gleientiaid y codir tâl o ryw ddyddiad yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth bellach ynglyn a chadw data yn ymddangos yn y Rhybudd Preifatrwydd a gyfeirir ato uchod.

## Terfynu contract

Gall cleientiaid derfynu eu cyfarwyddiadau i ni mewn ysgrifen ar unrhyw bryd. Cadwn yr hawl i derfynu'r contract am unrhyw reswm y tybiwn yn rhesymol ei fod yn un addas. Wedi terfynu, bydd cleientiaid atebol o hyd i dalu'r holl ffioedd, gwariadau a threuliau a achoswyd hyd at hynny. Fel rheol byddwn yn cofnodi'r terfyniad mewn ysgrifen.

## Cwynion

Ein nod yw darparu gwasanaeth cyfeillgar ac effeithlon i'n cleientiaid. Os byddwch yn anfodlon ar unrhyw adeg ag unrhyw agwedd ar y gwasanaeth a ddarparwn, yna ni ddylech betruso rhag dod a'ch pryder i sylw'r sawl sy'n delio a'ch mater, ac fe geisir ddatrys y sefyllfa cyn gynted a bo modd. Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon neu os na ellir cytuno ar ddatrysiad, yna byddai'ch cwyn yn cael ei dwyn i sylw Lena Rees Davies, y sawl sydd yn y ngofal gofal client o fewn y Cwmni, a fyddai'n cysylltu â chi a'r bwriad o ddatrys yr achos i'ch bodddhad.

Mae gan y Cwmni ddogfen Gweithdrefn Cwynion ac mae copi ohoni ar gael o'n swyddfydd yn ôl y gofyn, a byddai'r ddogfen yn cael ei gyrru atoch pe byddech yn gwneud cwyn. Gall eich cwyn ymwneud a'r ffordd y cafoch eich trin neu ynghylch bil a gyhoeddwn/roddwn i chi. Mewn achos yn ymwneud a chwyn ynghylch a bil, gall hawl fodoli lle gallwch wrthwynebu bil drwy wneud cais i'r Llys am asesiad o'r bil yn unol â Rhan III Deddf Cyfreithwyr 1974. Nodwn fodd bynnag, y gall fod gennym hawl i godi llog os bydd rhan neu'r cyfan o fil yn parhau heb ei dalu [hynny yn unol â'r hawl uchod](#).

Mae gennym wyth wythnos i ystyried eich cwyn. Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon ar ddiwedd ein gwrth drefn gwyno, yna mae gennych rhwyddhant i gysylltu â'r Ombwdsman Cyfreithiol, sef sefyliad sy'n ymchwilio i gwynion am wasanaeth gwael gan gyfreithwyr. Gall yr Ombwdsman Cyfreithiol ymchwilio i gwyn hyd at chwe mlynedd yn dilyn digwydd y broblem neu o fewn tair mlynedd o bryd daeth y broblem i'ch sylw. Os ydych yn dymuno dwyn y gwyn i sylw'r Ombwdsman Cyfreithiol, dylid gwneud hynny o fewn chwe mis yn dilyn ein ateb terfynol i'ch cwyn.

Os ydych yn dymuno cael mwy o wybodaeth am yr Ombwdsman Cyfreithiol, gallwch gysylltu â hwy drwy:

- Ymweld a [www.legalombudsman.org.uk](http://www.legalombudsman.org.uk)
- Ffonio 0300 555 0333 rhwng 8.30y.b. a 5.30y.p. (nid yw galwadau i rif 03 yn costio mwy na galwadau a wneir o rifau 01 a 02, ac mae hynny'n wir yn achos galwadau o ffon neu ffon symudol. Bydd galwadau'n cael eu recordio ac efallai y cant eu defnyddio at ddiben monitro a hyfforddiant).
- Ffonio drwy wasanaeth minicom 0300 555 1777.
- E-bostio [enquiries@legalombudsman.org.uk](mailto:enquiries@legalombudsman.org.uk)
- Anfon gohebiaeth yn y post i'r cyfeiriad canlynol:- Legal Ombudsman, P.O. Box 6806, Wolverhampton, WV1 9WJ.

Cawn ein rheoleiddio a'n hawdurdodi gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.

## Cyfyngiad ar Atebolrwydd

Yn gyffredin â chynghorwyr proffesiynol eraill, ein polisi yw gosod terfyn ar ein hatebolrwydd yng nghyswllt gwaith a wneir ar ran cleientiaid. Felly, bydd cyfanswm atebolrwydd i gleient, ei aelodau, ei weithwyr neu unrhyw drydydd parti a gyfarwyddir gennym ar ran cleient, boed mewn camwedd contract neu dan statud neu fel arall am unrhyw golled neu ddifrod sut bynnag y'i hachosir (gan gynnwys drwy ein hesgeulustod ni) a ddiodeffir gan gleient yng nghyswllt pob gwaith ar fater arbennig wedi'i gyfyngu i swm yr yswiriant indemniad proffesiynol sydd gan Parry Davies Clwyd Jones a Lloyd LLP/Elwyn Jones a'r Cwmni ar yr adeg y gwneir unrhyw hawliad am y cyfryw golled neu ddifrod, ond ni fydd y cyfryw derfyn, beth bynnag, ddim yn is na'r ffigwr yswiriant indemniad lleiaf a bennir o bryd i bryd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.

Mae'r ddarpariaeth cyngor a gwasanaethau cyfreithiol sy'n destun yr Amodau Ymrwymiad Cyffredinol hyn, a'r dyletswyddau sy'n ddyledus oddi tanynt, i'w darparu ac yn ddyledus gan Parry Davies Clwyd Jones a Lloyd LLP/Elwyn Jones a'r Cwmni yn unig, ac nid gan unrhyw aelod neu aelodau unigol o'r cwmni na neb a ddefnyddir neu a gyflogir gan y cwmni, a chytunwch na ddeuwch ag unrhyw hawliad yn erbyn unrhyw gyfryw aelod neu unigolyn arall yn bersonol (na'u henwi mewn unrhyw achos) yng nghyswllt unrhyw golled gysylltiedig â'r cyfryw ddarpariaeth neu ddyletswyddau.

Lle bydd cleient mewn unrhyw fodd yn torri telerau ein contract a'n bod ninnau o ganlyniad yn peidio neu'n gwrthod gweithredu neu'n oedi cyn gweithredu neu gymryd camau priodol, yna bydd y cleient yn hepgor pob hawliad a allasai fel arall fod ganddo neu ganddi yn ein herbyn.

Ni fydd y cyfyngiad hwn ar ein hatebolrwydd i gleient yn berthnasol i unrhyw golled a achosir gan ein hymddygiad twyllodrus neu'n diystyrwch byrbwyll ni o'n hymrwymiaidau proffesiynol na lle bo'r gyfraith yn ein gwahardd rhag cyfyngu ar ein hatebolrwydd i chi.

Os hoffech weld newid swm neu natur y cyfyngiad hwn ar unrhyw fater penodol rhaid ichi godi'r mater mewn ysgrifen gyda ni cyn derbyn y telerau hyn.

Er osgoi amheuaeth, mewn unrhyw gyd-achos a gymer cleient yn erbyn ei gynghorwyr, gan ein cynnwys ninnau, un o'n hamodau cyn gweithredu yw na chynyddir ein cyfran ni o atebolrwydd o ganlyniad i drefniadau a wna gyda chynghorwyr eraill sy'n cyfyngu ar eu hatebolrwydd hwy i'r cleient hwnnw nac o ganlyniad i fethiant y partion eraill i dalu. Felly, mewn unrhyw gyd-achos bydd ein cyfran ni o atebolrwydd i gleient yn gyfyngedig i'r hyn a fuasai pe na bai cyfyngiad ar atebolrwydd y partion. Os dymuna cleientiaid drafod hyn dylent roi gwybod inni cyn derbyn y telerau hyn.

## Cyngor treth

Gall unrhyw waith a wnawn ar ran cleientiaid fod â goblygiadau treth neu alw am ystyried strategaethau cynllunio treth. Oni chytunir yn benodol gyda chleientiaid, ni ddarparwn gyngor treth. Lle bo'n briodol, byddwn yn falch o wneud hynny os gofynnir inni. Lle cytunwn i roi cyngor treth bydd y cyngor hwnnw'n destun llythyr ymrwymo ar wahân a fydd yn pennu natur a maint y cyngor treth y byddwn wedi cytuno i'w ddarparu.

### **Awdurdod i ddatgelu**

Mae'r cwmni wedi cael achrediad Lexcel a Conveyance Quality Scheme ac yn sgîl hyn rydym yn agored i gael ein gwirio'n gyfnodol gan aseswyr allanol, sef yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a Chyfrifwyr/Archwilwyr Ariannol. Gallai hyn olygu y dewisir eich ffeil i'w gwirio, ac os digwydd hynny byddai angen i ni sicrhau eich cydsyniad chi. Cynhelir pob archwiliad yn gyfrinachol, wrth gwrs. Os yw'n well gennych beidio â chydsynio i hyn, ni fydd hynny'n effeithio ar y gwaith a wneir ar eich ffeil mewn unrhyw fodd. Gan mai ychydig iawn o'n cleientiaid sydd yn gwrthwynebu hyn byddwn yn rhagdybio, oni nodwch chi i'r gwrthwyneb, y bydd y cyfryw gydsyniad yn ymestyn i bob mater yr ymdriniwn â hwy ar eich rhan yn y dyfodol. Os byddai'n well gennych beidio â chydsynio rhowch linell drwy'r adran hon yn y llythyr copi a anfonwch yn ôl atom ni.

### **Cyfrinachedd**

Bydd unrhyw wybodaeth nad yw eisoes yn gyhoeddus, a ddaw inni mewn cysylltiad â materion a drafodir ar ran cleientiaid, yn gyfrinachol ac ni chaiff ei defnyddio na'i chyfleu i drydydd partïon ac eithrio'n unol â chyfarwyddiadau cleientiaid, yn ôl gofynion y gyfraith a/neu reoliadau Cymdeithas y Gyfraith neu fel a nodir isod.

### **Hawliau Trydydd Parti**

Ni fydd bodolaeth unrhyw gontract gyda chleientiaid a chyngor a roddir oddi tano'n creu nac yn ysgogi unrhyw hawliau trydydd parti ac eithrio yn achos aelodau a gweithwyr y cwmni, a all ddibynnu ar yr hawl hwn. Felly, mae cymhwysiad unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n honni rhoi'r hawliau hynny wedi'i eithrio o'r telerau hyn ac ni fyddwn yn atebol i neb ond y cleient mewn perthynas â chyngor a roddir yng nghyswllt pryniant neu werthiant penodol.

### **Amrywiol**

Yr Amodau Cyffredinol hyn ynghyd â'r llythyr ymrwymo ("Telerau Ymrwymo") yw'r cytundeb cyfan rhyngom mewn perthynas â'r gwasanaethau yr ydym am eu darparu. Ni fydd unrhyw newidiadau neu addasiadau iddynt ddim ond yn effeithiol os byddwn wedi cytuno arnynt rhyngom mewn ysgrifen.

Bydd modd gwahanu pob darpariaeth (a phob rhan o bob darpariaeth) a geir yn y Telerau Ymrwymo oddi wrth bob darpariaeth arall (a phob rhan arall o ddarpariaeth) ac os ar unrhyw bryd y bydd neu y daw unrhyw un neu ragor o'r cyfryw ddarpariaethau neu unrhyw ran ohonynt yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, ni fydd hynny'n effeithio mewn unrhyw fodd ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb a gorfodadwyedd y darpariaethau eraill a phob rhan ohonynt.

### **Cyfraith Gymwys**

Caiiff ein Telerau Ymrwymo eu rheoli gan gyfreithiau Cymru a Lloegr a'u dehongli'n unol â hynny ac mae'r partïon yn cydsynio ag awdurdodaeth neilltuedig llysoedd barn Cymru a Lloegr ym mhob mater sy'n gysylltiedig â hwy.